

## **HANES - EWROP AC AMERICA**

Amser - 1.5 awr

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.**

---

### **ADRAN A**

1. 'Astudiaeth o fywyd dynion mawrion yw Hanes.' Trafodwch.
2. Ym mha ffyrdd y mae dychymyg yn angenrheidiol i'r hanesydd, ac i ba raddau y mae'n rhaid i haneswyr ffrwyno eu dychymyg?
3. A all hanes fod yn wyddonol fyth?
4. Sut y dylid ymchwilio i hanes propaganda ac ysgrifennu amdano?
5. 'Rhyfel yw'r peiriant sy'n gyrru hanes.' (Trotsky) Ydych chi'n cytuno?
6. Pa mor ddefnyddiol yw dyddiaduron a chofiannau fel ffynonellau gwreiddiol i haneswyr?

### **ADRAN B**

#### Y Cyfnod Cynnar a'r Canoloesoedd

7. Pa ran a chwaraewyd gan oresgyniadau'r barbariaid yng nghwmp yr Ymerodraeth Rufeinig?
8. I ba raddau yr oedd datblygiadau technolegol yn gyfrifol am ymosodiadau a choncwestau'r Llychlynwyr o 794 O.C.?
9. Pam y chwalodd ymerodraeth Siarlymaen ar ôl iddo farw yn 814?
10. I ba raddau yr oedd cymdeithas Sisili yn y canoloesoedd yn un aml-ddiwylliannol?
11. Beth y mae Cronicl Vincent Kadlubek yn ei ddweud wrthym am y gymdeithas yng Ngwlad Pwyl yn y ddeuddegfed ganrif?

12. Pa effaith a gafodd y Croesgadau ar Ewrop?
13. I ba raddau yr 'Ewropeiddiwyd' Ewrop yn y Canoloesoedd?

#### Y Cyfnod Modern Cynnar

14. Pam yr oedd Protestaniaid radical yn dryllio delwau yn yr unfed ganrif ar bymtheg?
15. Pam y bu cymaint o ryfela ar sail crefydd yn Ewrop yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg?
16. A oedd Ewrop mewn cyflwr o argyfwng parhaus a chyffredinol yn yr ail ganrif ar bymtheg?
17. Pa mor briodol yw hi i gategoreiddio economi Ewrop yn y cyfnod modern cynnar fel un 'cyn-ddiwydiannol'?
18. 'Roedd chwyldroadwyr modern cynnar ... yn brin, yn gyfyngedig eu dylanwad, ac ar y cyfan wedi'u hysbrydoli gan danbeidrwydd...crefyddol (Bernard Capp). Trafodwch.
19. Trafodwch y rhan a chwaraeodd hunaniaeth genedlaethol yn Rhyfel Annibyniaeth America.
20. I ba raddau y gellid dweud bod Catherine Fawr o Rwsia yn 'unben goleuedig'?

#### Y Cyfnod Modern

21. Trafodwch gyfraniad un o arweinwyr Chwyldroadol Ffrainc i'r Chwyldro yn Ffrainc hyd at Thermidor yn 1794.
22. Pam y chwaraeodd cenedlaetholdeb ran mor arwyddocaol yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Atebwch gan gyfeirio'n benodol at un astudiaeth achos.
23. Pryd a pham y penderfynodd Bismarck geisio uno'r Almaen?
24. Pa mor bwysig oedd caethwasiaeth fel un o achosion Rhyfel Cartref America?
25. I ba raddau mae'r ddadl mai cwmp mewn morâl a arweiniodd at orchfygu'r Gynghrair yn Rhyfel Cartref America yn ddadl sy'n argyhoeddi?
26. Cymharwch a chyferbynnwch y broses o ddiwydiannu cyn 1914 mewn DWY o'r gwledydd canlynol: Ffrainc, yr Almaen, Rwsia.
27. Aseswch y rhan a chwaraewyd gan UN o'r pwerau canlynol yn achosi a chychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf: yr Almaen, Awstria-Hwngari, Rwsia.
28. Pam y colodd yr Almaen a'i chynghreiriaid y Rhyfel Byd Cyntaf?

29. Pam nad arweiniodd y Chwyldro yn Rwsia at Chwyldro Byd?
30. I ba raddau y gellid dweud bod Stalin wedi dod i rym oherwydd ei fod yn ddidrugaredd yn wleidyddol?
31. I ba raddau y dylid tadogi twf Ffasgiaeth yn yr Eidal i'r Rhyfel Byd Cyntaf ac i delerau'r cytundeb heddwch?
32. Pam y cafodd Hitler ei benodi'n Ganghellor yr Almaen ar 30 Ionawr, 1933?
33. Pam yr wynebodd y Natsiaid gyn lleied o wrthwynebiad wedi'i drefnu o fewn yr Almaen rhwng 1933 a 1945?
34. I ba raddau yr oedd y Fargen Newydd yn newid cyfeiriad radical yn yr Unol Daleithiau?
35. I ba raddau y gellid dweud mai cynnyrch dyhuddiad oedd yr Ail Ryfel Byd?
36. Beth oedd achosion y Rhyfel Oer?
37. Pa ran a chwaraewyd gan Gludiad Awyr Berlin wrth rannu'r Almaen?
38. Pam yr oedd Fiet-Nam yn bwysig i wneuthurwyr polisi yr Unol Daleithiau?
39. Esboniwch lwyddiant y mudiad hawliau sifil yn yr Unol Daleithiau yn y 1960au.
40. Aseswch gyfraniad NAILL AI Gorbachev NEU Reagan yn dod â'r Rhyfel Oer i ben.